# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Conference Room 1a, County Hall, Ruthin, Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans (Cadeirydd), Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Bobby Feeley, Hugh Irving, David Smith, Huw Jones a/ac Barbara Smith.
Sylwedyddion: Y Cynghorwyr J.R. Bartley, J. Butterfield, W.L. Cowie, M.Ll. Davies, J.R. Davies, T.R. Hughes, D. Owens, P. Penlington, A. Roberts a D. Simmons.

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG), Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Tai Cymunedol (SK), Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol (GW), Rheolwr Prosiect Canolfan y Gogledd-ddwyrain (JE), Swyddog Comisiynu (CW), Cydgysylltydd Craffu (RE), Cydgysylltydd Gofalwyr (AD) Cynrychiolydd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Croesawodd yr Arweinydd y Cynghorydd Paul Penlington i'r cyfarfod.

Hysbysodd y Cynghorydd E.W. Williams yr Aelodau bod disgybl ysgol wedi cael anafiadau i'w asennau ar ôl damwain ffordd y tu allan i Ysgol Uwchradd y Rhyl yn gynharach yn y dydd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)

## 2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Gwahoddwyd Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi nad oedd yna unrhyw ddatganiadau o fuddiant.*

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Fawrth 20$^{fed}$ 2012.

***PENDERFYNWYD**:- cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 15fed 2013 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan yr Arweinydd.*

**5 ADRODDIAD DIWEDDARU ARIANNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn manylu ar gyllideb refeniw a chynilion y Cyngor fel y'u cytunwyd ar gyfer 2012/13, fel ag ar ddiwedd Ionawr 2013. Roedd yn darparu diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf, safle ariannol presennol y Cyngor a cheisiai gymeradwyaeth i argymhellion a wnaethpwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

Esboniodd bod rhagolygon diweddaraf y gyllideb refeniw wedi eu cynnwys fel Atodiad 1 ac roedden nhw'n dynodi tanwariant ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £631k (£435k y mis diwethaf), sy'n cynrychioli amrywiant o 0.55% ar draws cyfanswm y gyllideb net. Ynglŷn â safle ysgolion, y rhagolygon ydi symudiad net positif ar weddillion o £286k ar gyllidebau dirprwyedig a £161k ar gyllidebau ysgol annirprwyedig. Roedd crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond roedd hon yn gronfa ar wahân ac nid yn rhan o brif gyllideb refeniw'r Cyngor.

Roedd Atodiad 2 yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn yr arbedion a'r pwysau a gytunwyd yn rhan o broses gosod cyllideb ar gyfer 2012/13. Efo'i gilydd, fe gytunwyd ar arbedion net o £3.443m ac mae £3.102m (90%) wedi eu cyflawni gyda £316k (9%) wedi ei ddosbarthu i fod ar y gweill ac roedd £25k (1%) wedi ei ohirio tan y flwyddyn nesaf. Roedd y gohiriad yn ymwneud ag arbedion oherwydd rhesymoliad printiwr. Fe ystyrid fod pob un o'r eitemau a oedd ar ôl ac a oedd wedi eu dosbarthu i fod 'ar y gweill' yn gyraeddadwy, ond gyda'r rhan fwyaf roedd angen dadansoddiad o weithgaredd blwyddyn gyfan i asesu'n briodol a oedd y mesur arbed a restrwyd wedi ei gyflawni mewn gwirionedd.

Rhoddodd y Cynghorydd Thompson-Hill grynodeb o'r Cyllidebau Gwasanaeth canlynol a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad:-

- Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Gwasanaethau Oedolion a Busnes
- Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylchedd
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Cysylltiadau, Marchnata a Hamdden
- Cymorth Cwsmeriaid ac Addysg
- Gwella Ysgolion a Chynhwysiant
- Ysgolion
- Cyllidebau Corfforaethol

Esboniodd bod costau ychwanegol yr ymateb ar unwaith i ddigwyddiadau'r llifogydd diweddar wedi dod dan drothwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys, ac roedd yna dybiaeth y byddai'r Cyngor yn ariannu'r gost. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fod hawliad am bob costau cymwys wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid disgresiynol. Roedd yna gostau cyfredol yn ymwneud ag eithriadau

rhag Treth Gyngor ac roedd pwysau pellach a oedd yn ymddangos wedi codi o ddirwyn y 'Mutual Municipal Insurance Company' i ben yn 1992, gan y byddai Aelodau'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am atebolrwydd a oedd yn dal i godi o ran digwyddiadau cyn 1992. Esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai Sir Ddinbych yn talu cyfran o'r hawliadau atebolrwydd, yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth a fyddai'n oddeutu 20% o'r costau. Dywedodd wrth Aelodau y byddai cronfa wrth gefn yn cael ei hadeiladu i mewn i'r gyllideb a byddai manylion y costau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad cyllid nesaf i'r Cabinet.

Roedd yna atebolrwydd potensial o ran cyn Gyngor Bwrdeistref Rhuddlan, ac roedd atebolrwydd ychwanegol yn awr yn codi o ran cyn Gyngor Sir Clwyd. Roedd swm atebolrwydd potensial Clwyd yn ansicr ac roedd cyfanswm amlygiad y Cyngor i hawliadau Clwyd oddeutu £2.5m, ond roedd yn annhebygol y byddai'r atebolrwydd yn cael ei sbarduno ar y lefel yma.

Roedd cyfraddau casglu Treth Gyngor yn well na'r rhagdybiaethau ac fe dybiwyd y byddai unrhyw fantais yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at ariannu blaenoriaethau buddsoddi strategol y Cyngor yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol. Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill y byddai'r manylion llawn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad diwedd blwyddyn. Roedd gwariant hyd at ddiwedd Ionawr, 2013 yn £19.4m yn erbyn Cynllun a gytunwyd o £31.4m. Y llynedd roedd y chwarter olaf wedi cyfri am 43% o gyfanswm y gwariant am y flwyddyn. Roedd Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o'r cynllun cyfredol a'r ffordd yr oedd wedi ei ariannu. Roedd Atodiad 4 yn rhoi trosolwg o'r prosiectau cyfalaf mawr ac roedd manylion y ddau gynllun a gynigiwyd i'w cymeradwyo gan y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi eu hamlinellu yn Atodiad 5. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai diweddaraf a gynigiwyd wedi ei gynnwys fel eitem ar wahân ar agenda'r Cabinet.
Rhoddodd y Prif Gyfrifydd gadarnhad bod y marchnadoedd ariannol yn dal yn eithaf cyfnewidiol ac roedd hynny'n parhau i gyfyngu ar gyfleoedd i fuddsoddi. Byddai Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys a Strategaeth Fuddsoddi 2013/14-2015/16 yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar Chwefror 26ain 2013. Roedd cyfanswm y benthyca'n dal yn £134.08m ac roedd cyfanswm y buddsoddiadau'n £19.2m, ac roedd manylion y risgiau a'r mesurau i'w lleihau wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Cynghorydd E.W. Williams grynodeb o'r prif newidiadau i gyllid addysg gydag ysgolion yn cael eu hariannu'n uniongyrchol drwy ariannu teg i ysgolion, yn seiliedig ar y gofynion i gyflenwi addysg ac nid ar sail hanesyddol. Teimlai y dylid ystyried trefnu digwyddiad cymdeithasol i drafod oblygiadau'r system newydd ac i roi eglurhad.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Arweinydd ynglŷn â'r ddarpariaeth ariannu ar gyfer cyfnodau dichonolrwydd gwaith/dylunio manwl a chyn-adeiladu i alluogi cynnig cymeradwyaeth grant ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o ran Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Gymunedol Bodnant, Prestatyn, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddid yn ymgymryd â'r gwaith dylunio dan risg ar y dybiaeth y byddid yn darparu cyllid. Amlygodd y Cynghorydd E.W. Williams bwysigrwydd bod yn rhagweithiol a chael cynlluniau strategol wedi eu sefydlu i fwrw ymlaen â phrosiectau a nodwyd. Mynegodd y Prif Weithredwr y farn fod Sir Ddinbych wedi mabwysiadu'r dull gweithredu priodol tuag at Raglen Ysgolion yr 21g. Ond, fe

gadarnhaodd fod yna risgiau gyda bwrw ymlaen â'r gwaith dylunio gan nad oedd yna unrhyw sicrwydd a dim ond sicrwydd geiriol o ran darpariaeth cyllid. Hysbyswyd Aelodau bod y dull gweithredu wedi ei adolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol yn Ionawr, 2013, pan gymeradwywyd dechrau ar y gwaith dylunio ar gost a amcangyfrifwyd o £1.8m.

Yn ystod y drafodaeth ganlynol:-

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cabinet:-*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a'r targedau arbedion am y flwyddyn, fel y'u nodir yn yr adroddiad, ac yn bwrw ymlaen yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd*
(b) *yn cytuno i ariannu'r gwaith dichonolrwydd o ran Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Gymunedol Bodnant, Prestatyn gyda'r swm o £1.8 miliwn.*

## 6 CYFRIF REFENIW TAI / CYLLIDEBAU REFENIW A CHYLLIDEBAU CYFALAF 2013/14

Cyflwynodd y Cynghorydd H.C. Irving yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cyllidebau Cyfalaf ar gyfer 2013/14.

Mynegodd y Cynghorydd M.Ll. Davies fudd personol gan ei fod yn rhentu garej gan y Cyngor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Irving yr adroddiad ac esboniodd y byddai angen sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2013/14 i gydymffurfio â'r Cynllun Busnes Stoc Tai a sefydlwyd pan benderfynodd y Cyngor i gadw ei stoc tai ac ariannu gwelliannau i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2013 a'i gynnal tan 2014. Roedd y rhagolygon alldro diweddaraf wedi eu nodi yn Atodiad 1 ac roedd gweddillion ar ddiwedd blwyddyn wedi eu darogan i fod yn £857,000, gwelliant o £17k o'i gymharu â rhagolygon yr alldro ar gyfer Rhagfyr 2012. Roedd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2013/14 wedi ei nodi yn Atodiad 1.

Fe grynhodd y Prif Gyfrifydd y broses o gyfrifo'r gyllideb, a amlinellwyd yn yr adroddiad, ac roedd Penderfyniadau Cymhorthdal Terfynol y Cyfrif Refeniw Tai ar ddigwydd. Roedd y Penderfyniad yn rheoli'r cymhorthdal negyddol a delid i Lywodraeth Cymru'n flynyddol ac fe dybiwyd fod yna godi "Rhenti Awgrymedig", bod costau "Rheoli a Chynnal" yn benodedig a bod yna ad-dalu cyfalaf â chymorth hŷn. Roedd cyfrif "tybiannol" y Cyfrif Refeniw Tai a gynhyrchwyd o'r cyfrifiad â gwarged ac yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru ac yna i'r Trysorlys fel cymhorthdal negyddol. Roedd yn annhebygol y byddai yna unrhyw newid arwyddocaol i System Gymorthdaliadau'r Cyfrif Refeniw Tai tan 2014. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dynodi y byddai'n gohirio'r polisi cydgyfeirio rhenti am flwyddyn arall ac yn lleihau'r Rhent Awgrymedig i 1% yn uwch na ffigwr chwyddiant Medi 2012 a chanlyniad hyn oedd yr argymhellion canlynol gan Lywodraeth Cymru:-

- Lwfansau Rheoli a Chynnal i'w codi o 6.6% i £2,610 o'i gymharu â £2,267 yr annedd yn 2012/13.
- Cynnydd yn y Rhent Awgrymedig i £69.45 yr annedd yr wythnos sy'n cyfartalu i gynnydd wythnosol o £3.37 neu 5.18%.

- Byddai Rhenti Meincnod (RSL) yn codi i £75.21 o £72.95, cynnydd o £2.26 sy'n cyfartalu i godiad o 3.10%.

Byddai taliad Cymhorthdal amcangyfrifiedig y Cyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14 yn gyfanswm o £3,243,000, cynnydd o 5.3% o'i gymharu â 2012/13. Roedd manylion y gwaith a wnaethpwyd gan y Gwasanaethau Tai ar rychwantu effaith y diwygio lles a datblygu strategaethau i reoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag o, wedi eu crynhoi yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y byddai pob tenant a oedd wedi ei effeithio'n cael eu cynorthwyo â chyngor ar opsiynau tai ac roedd y gwasanaeth wedi ei ailstrwythuro i greu swyddogaeth reoli incwm bwrpasol i ddatblygu dull mwy rhagweithiol ac ymyraethol o reoli a lliniaru risgiau o ôl-ddyledion cynyddol o ganlyniad i ddiwygiadau lles ehangach. Fe gymeradwywyd fod pob tenant yn talu'r Rhent Awgrymedig uwch ar gyfer 2013/14 ac roedd crynodeb o'r taliadau sy'n cael eu cymhwyso i'r stoc wedi ei roi yn yr adroddiad.

Esboniodd y Rheolwr Tai Cymunedol y byddai Cynllun Busnes y Stoc Tai'n cael ei fonitro ac y byddid yn cynnal ymarferiad Diwydrwydd Dyladwy yn flynyddol. Roedd yr adolygiad diweddaraf yn cadarnhau fod llawer o'r rhagdybiaethau gwreiddiol yn dal heb eu haltro a'r casgliad oedd bod y Cynllun Busnes yn hyfyw ac yn gadarn ac y byddai'r cynllun yn hyfyw am y 30 mlynedd nesaf.

Esboniodd y Rheolwr Tai Cymunedol bod arolwg cyflwr stoc 2012 wedi nodi angen am wariant ychwanegol sylweddol yn y 30 mlynedd nesaf a hynny'n amrywio o £50miliwn i £33 miliwn. Byddai'r cynllun yn hyfyw dros y cyfnod o 30 mlynedd gyda gweddillion yn codi o £43 miliwn o arolwg gwreiddiol Savill i £52 miliwn wrth ystyried y gofynion buddsoddi stoc drwy Arolwg Rands. Byddai Rhaglen Cyfalaf 2013/14 yn cynnwys cwblhau'r contractau fframwaith fel y byddai pob eiddo'n cyfarfod â Safon Ansawdd Tai Cymru a byddai cyfanswm cost y gwaith cyfalaf ar gyfer 2013/14 yn unol â Chynllun Busnes y Stoc Tai. Roedd manylion taliadau gwresogi, rhenti garejis a phenodiadau contractwr y cytundeb fframwaith wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd R.L. Feeley, rhoddodd y Rheolwr Tai Cymunedol fanylion yr oblygiadau sy'n ymwneud â chyflwyniad diwygio lles. Cyfeiriodd at y broses o ailstrwythuro sy'n corffori prosiectau sy'n cael eu gweithredu o ran garejis a systemau gwresogi tai. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd dull gweithredu cyson gan yr Awdurdod a'r Sector Wirfoddol o ran gwybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd ynglŷn â'r diwygio lles.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cytunodd y Rheolwr Tai Cymunedol i ddarparu ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd J. Butterfield ynglŷn â chydraddoldeb rhent rhwng Gogledd a De'r Sir.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) Mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2013/14, Atodiad 1, a Chynllun Busnes y Stoc Tai, Atodiad 2.*
*(b) Cynyddu rhenti aneddiadau'r Cyngor yn unol â chanllawiau'r Polisi Gosod Rhenti gan Lywodraeth Cymru a hynny'n weithredol o ddydd Llun, Ebrill 1af, 2013*

*(c) Cynyddu rhenti ar gyfer garejis y Cyngor a Thaliadau Gwresogi yn unol â Rhenti Canllaw a hynny'n weithredol o ddydd Llun, Ebrill 1af, 2013.*

## 7 STRATEGAETH GYFATHREBU

Cyflwynodd y Cynghorydd H.C. Irving yr adroddiad a oedd yn mynegi amcanion Cyfathrebu'r Awdurdod am y tair blynedd nesaf, gydag adrannau allweddol yn ymwneud â chysylltiadau ac ymgysylltu mewnol, cysylltiadau Aelodau, gwella enw da'r Cyngor a gwella'r brand corfforaethol.

Roedd y Cyngor yn ailstrwythuro ei swyddogaethau Cyfathrebu a Marchnata i fodloni'r gofynion a ddiffinnir yn y Cynllun Corfforaethol. Byddai'r Cyngor yn mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol gyda marchnata a chyfathrebu ac yn parhau ag adolygiadau cyson o'r ffordd y mae'n cyfathrebu i gyfarfod ag anghenion preswylwyr ac ymwelwyr. Y ffocws allweddol ar gyfer yr adran newydd fyddai creu Strategaeth Farchnata i Sir Ddinbych, a fyddai'n cydnabod yr angen am Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol i danategu pob gweithgaredd cyfathrebu o fewn yr Awdurdod. Roedd manylion gyrwyr eraill ar gyfer y Strategaeth wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad ac fe gyfeiriwyd at:-

- Ddogfen y Prif Weithredwr, 'Cyngor Ardderchog yn Nes at y Gymuned' sy'n amlinellu'r angen i ddod yn nes at y gymuned.
- Yr angen i Aelodau ddod yn genhadon i'r Cyngor.
- Y safle ariannol sydd angen ffordd gallach o gyflenwi a'r angen am gyfathrebu mwy effeithiol.
- Adborth gan breswylwyr.
- Angen i gryfhau gweithgaredd cyfathrebu mewnol yn fewnol a chyda chynulleidfaoedd allanol.
- Gwella cysylltiadau â Chynghorau Tref a Chymuned.

Byddai Cynllun Gweithredu cydlynol yn delio â sialensiau cyfathrebu'r Awdurdod yn y dyfodol. Byddai'n cynnwys marchnata gwasanaethau'r cyngor, marchnata cyrchfannau, digwyddiadau mawr, cyfryngau cymdeithasol a datblygu'r we. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Arweinydd fe gadarnhaodd y Rheolwr Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata y byddid yn delio â datblygiad polisi'r iaith Gymraeg a chyflwyniad safonau newydd a osodwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg drwy ailsefydlu fforymau dwyieithog Aelodau. Esboniodd y Pennaeth Cymunedau, Marchnata a Hamdden fod Sir Ddinbych wedi bod yn rhagweithiol yn cyfarfod â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg a oedd yn ymddangos. Ynglŷn â delio â Mesurau Llywodraeth Leol o ran cynorthwyo a gwella cysylltiadau Aelodau yn y gymuned, cyfeiriodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden at y gwaith a wnaethpwyd o fewn y Cynllun Cysylltiadau, Grwpiau Ardal Aelodau, Clystyrau Trefol, Cymunedol a Strategaeth Gwsmeriaid y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ar y ffordd y byddai'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol, effaith costau ar wasanaethau eraill, costau'n codi o weithgareddau cyfathrebu, ymgynghoriadau a gynhelir a risgiau posib a'r dulliau i'w lleihau.

Yn ateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd W.L. Cowie ynglŷn ag amseroedd ymateb Rheolaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid, esboniodd y Cynghorydd H.C. Irving bod y mater yma wedi ei godi â'r Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg, a chytunodd i gysylltu â'r Cynghorydd Cowie ar y mater yma. Hysbyswyd y Cynghorydd M.Ll. Davies y byddai cwynion a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg.

Fe atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid fater a godwyd gan y cynghorydd B.A. Smith a chytunodd i ddarparu manylion yn ymwneud â'r diffyg ymateb a gafwyd i Siarter y Cynghorau Tref a Chymuned. Cytunodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i gyfleu pryderon a fynegwyd gan Aelodau ynglŷn â gweithrediad i-Pads.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, fe amlinellodd y Cynghorydd H.C. Irving yr argymhellion yn yr adroddiad a dywedodd wrth Aelodau y byddai eu pryderon ynglŷn â Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chysylltiadau'n cael eu cyfleu i'r Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig ar gyfer 2013.*

## 8 STRATEGAETH GWYBODAETH AC YMGYNGHORI GOFALWYR GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd R.L. Feeley yr adroddiad a oedd yn nodi gweithrediad Mesur newydd Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 (y Mesur Gofalwyr) fel y'i mynegir yn Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru 2012 - 2015. Mae copi o'r Strategaeth Ranbarthol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Roedd y Strategaeth Ranbarthol wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac roedd angen i bob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru graffu a chymeradwyo'r Strategaeth Ranbarthol. Fe amlinellodd yr adroddiad y ffordd y byddai'r Strategaeth Ranbarthol yn delio â gofynion y Mesur Gofalwyr ac roedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi mynegi eu cefnogaeth i weithrediad y Strategaeth.

Roedd y Mesur, y Rheoliadau a'r Cyfarwyddyd ar weithredu'r Mesur wedi eu rhoi i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth, ac i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (yr 'awdurdodau dynodedig') yn Ionawr 2012, a dyma'r tro cyntaf i ddyletswyddau statudol gael eu rhoi ar Awdurdodau Iechyd yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu gofynion Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010, a'r gofyniad yn arbennig i gyhoeddi a gweithredu Strategaeth Wybodaeth ac Ymgynghori ranbarthol i Ofalwyr.

Fe esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes bod y Byrddau Iechyd Lleol wedi eu dynodi'n 'awdurdod arweiniol' yng ngweithrediad Rheoliadau'r Mesur Gofalwyr a bod Grŵp Strategol Arweinwyr Gofalwyr Gogledd Cymru wedi ei

sefydlu yn 2011 i ddatblygu’r Strategaeth Ranbarthol. Yn ogystal, roedd BIPBC wedi sefydlu Bwrdd Prosiect Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) i graffu gwaith Grŵp Strategol Arweinwyr Gofalwyr Gogledd Cymru a darparu cyngor a sicrwydd i’r Bwrdd Iechyd ei fod yn cyfarfod â’i gyfrifoldebau o ran y Mesur Gofalwyr.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi casglu bod y Strategaeth yn rhagweithiol ac yn arddangos gweithio cryf mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, y chwe Awdurdod Lleol a sefydliadau’r Trydydd Sector. Roedd rhai meysydd i’w gwella wedi eu nodi ac roedd y rhain yn cynnwys yr angen am bennod ar wahân ar ofalwyr ifanc, cryfhau rhai o’r Camau Allweddol ar gyfer Blwyddyn 3, yn enwedig y rheiny ar hyfforddiant staff a gofalwyr, a mynegi sut y byddai’r Strategaeth yn berthnasol i gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a grwpiau eraill sydd â nodweddion a ddiogelir. Roedd angen cryfhau elfen iechyd meddwl y Strategaeth hefyd ac roedd Llywodraeth Cymru’n edrych ar ffyrdd o ddarparu cymorth i’r Byrddau Iechyd.

Roedd amcanion allweddol y Strategaeth Ranbarthol yn cynnwys:-

- Bydd holl weithwyr proffesiynol y GIG a’r awdurdod lleol yn cael eu hysbysu o’u cyfrifoldebau o ran y Mesur Gofalwyr drwy godi ymwybyddiaeth oportiwnistig a hyfforddiant staff.
- Fe gaiff gofalwyr eu nodi gyn gynted ag sydd bosib.
- Fe roddir gwybodaeth amserol ddigonol i ofalwyr yn ôl eu hanghenion.
- Pan fydd cydsyniad claf yn cael ei atal, fe ddarperir gofalwyr â chymaint o wybodaeth ag sy’n bosib ei rhannu heb dorri cyfrinachedd y claf, i’w galluogi i ymgymryd â’u rôl o ofalu’n ddiogel.
- Fe hysbysir pob gofalwr o’u hawl i asesiad annibynnol o’u hanghenion cymorth fel gofalwr
- Bydd gofalwyr yn cael eu cynnwys yn naturiol yn yr holl brosesau penderfynu ynghylch rheolaeth gofal.
- Mae staff y GIG yn gallu cyfeirio gofalwyr a fydd wedi eu nodi at sefydliadau cymorth i ofalwyr.

Er mwyn bodloni’r amcanion hyn, mae’r Strategaeth Ranbarthol yn mynegi’r camau allweddol o ran:
- Nodi a Chyfeirio Gofalwyr
- Asesiadau o Anghenion Gofalwyr
- Darpariaeth gwybodaeth
- Cyfathrebu ac ymgynghori â Gofalwyr
- Hyfforddiant Staff a Hyfforddiant Gofalwyr
- Monitro effaith y Mesur Gofalwyr

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y ffordd yr oedd y penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol, effaith y costau ar wasanaethau eraill, y costau sy’n codi o weithgareddau cyfathrebu, ymgynghoriadau a gafwyd a risgiau posib a’r ffordd i’w lleihau.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes bod y dyletswyddau statudol yr oedd y Mesur Gofalwyr yn eu rhoi ar y Bwrdd Iechyd yn delio â materion demograffig o ran niferoedd cynyddol yr unigolion a oedd yn ymgymryd â swyddogaeth o ofalu, a byddai mwy o gymorth i Ofalwyr Ifanc yn helpu i ddelio ag

anghenion a fynegwyd yn Strategaeth Gofalwyr Ifanc Sir Ddinbych, gydag ymglymiad Addysg yn bartner allweddol. Roedd Cynllun Mawr Sir Ddinbych yn cefnogi datblygiad y Strategaeth Ranbarthol, a gweithrediad camau'r Strategaeth. Byddai datblygiad y Strategaeth Ranbarthol hefyd yn cefnogi'r mesurau perfformiad sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Mawr o ran nifer y Gofalwyr a nodwyd ac a aseswyd.

Roedd manylion y dyraniadau i'w rhoi ar gael i BIPBC i gynorthwyo gweithrediad y strategaeth ranbarthol ledled Gogledd Cymru wedi eu nodi yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes y byddai'r cyfrifoldeb am asesu'n aros â'r Awdurdod Lleol ac y byddai'r potensial ar gyfer cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau'n cael ei fonitro i ystyried problemau capasiti ac oblygiadau i wasanaethau yn y dyfodol. Fe amlinellodd y prosesau a fabwysiadwyd ar gyfer nodi gofalwyr, yn enwedig yn y cyfnod cynnar, ac ar gyfer cydnabod lefel a pha fath o gymorth yr oedd ei angen.

Yn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Thompson-Hill rhoddodd y Cydlynydd Gofalwyr fanylion yr ystod o wasanaethau a gomisiynwyd i roi cymorth i ofalwyr, a oedd yn cynnwys darpariaeth gofal seibiant. Ar gais yr Arweinydd cytunodd y Swyddog Comisiynu y gellid cylchredeg gwybodaeth ar y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael i ofalwyr yn y Sir i Aelodau Gweithredol.

Cafwyd yr ymateb canlynol gan y swyddogion i faterion a godwyd gan Aelodau:-

- Darparwyd manylion y broses ariannu a thaliadau ar gyfer darpariaeth gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes y byddai materion ariannu a godwyd o ran darpariaeth gwasanaethau gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Esboniodd y Cynghorydd R.L. Feeley fod yr oblygiadau cost yn aneglur a byddid yn eu monitro'n agos. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles at oblygiadau darparu cyllid ac adnoddau a allai effeithio ar lefel ac ystod darpariaeth gwasanaeth a dylanwadu ar hynny.
- Crynhowyd swyddogaeth a chylch gwaith Pencampwr Gofalwyr Sir Ddinbych, y Cynghorydd J.A. Davies. Esboniwyd ei bod yn aelod sefydlog o Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych ac felly'n derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a gwybodaeth.
- Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd B.A. Smith, esboniodd y Cydlynydd Gofalwyr y byddai cynllunio rhyddhau'n elfen bwysig o sefydliad a datblygiad llwybr cyfeirio ffurfiol drwy'r siwrnai iechyd. Roedd y strategaeth a oedd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i wella'r broses yn cwmpasu cynllun gofal a byddai gwelliant arfaethedig y strategaeth yn sicrhau y byddai'r broses yn gadarnach. Cadarnhaodd bwysigrwydd swyddogaeth Meddygon Teulu yn y broses o gyfeirio a chadarnhaodd eu cynhwysiad yn y broses hyfforddi. Cytunai'r Cydlynydd Gofalwyr y gellid cylchredeg taflen wybodaeth i ofalwyr a ddyluniwyd gan Grŵp Gogledd Cymru i'w dosbarthu mewn sesiynau hyfforddi staff, i Aelodau pan fyddai wedi ei chwblhau.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:Moderneiddio a Lles wrth Aelodau bod y strategaeth hefyd yn cwmpasu gofalwyr ifanc ac esboniodd bod y pwynt mynediad i wasanaethau i ofalwyr ifanc yn wahanol i'r rheiny ar gyfer oedolion.

Amlinellodd y gwaith sy'n cael ei wneud yn Ysgolion Sir Ddinbych a Gwasanaethau Plant i nodi gofalwyr ifanc a sicrhau ymwybyddiaeth o lefel uwch a chadarnhaodd y byddid yn ymgymryd â gwaith pellach drwy gomisiynu gwasanaethau'n rhanbarthol.

Mynegodd y Prif Weithredwr ei gefnogaeth i'r Strategaeth ac amlygodd y gydberthynas weithio mewn partneriaeth dda sy'n bod rhwng BIPBC a Sir Ddinbych. Amlinellodd y gofynion cyfreithiol ac fe amlygodd bwysigrwydd gwneud penderfyniadau a fyddai'n cynyddu ac yn cryfhau lefel y gweithio mewn partneriaeth a oedd eisoes wedi ei sefydlu.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru, 2012-2015, a'r dull partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector o ran ei gweithrediad*.

## 9 DIGWYDDIAD SEICLO ETAPE CYMRU 2013

Cyflwynodd y Cynghorydd H.Ll. Jones yr adroddiad a oedd yn darparu manylion digwyddiad seiclo ffyrdd caeedig Etape Cymru sydd i'w gynnal yn y Sir ym Medi, 2013.

Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi rhoi cefnogaeth ddiamod i'r digwyddiad yn amodol ar ddelio â rhai pryderon a phenderfyniad gan y Cabinet ar Orchmynion Cau Ffyrdd arfaethedig. Roedd manylion digwyddiad Etape Cymru, ei lwyddiant blaenorol a'r manteision i'r ardal, wedi eu crynhoi yn yr adroddiad.

Esboniodd y Cynghorydd Jones, er nad oedd Sir Ddinbych yn uniongyrchol gysylltiedig â chynllunio'r digwyddiad, roedd y trefnwyr wedi pwysleisio y byddai'n annhebygol o fynd yn ei flaen heb gefnogaeth Cynghorau Sir Ddinbych a Wrecsam. Prif swyddogaeth Sir Ddinbych fyddai hwyluso trafodaethau ynghylch materion priffyrdd a diogelwch. Roedd crynodeb o'r pryderon sy'n ymwneud ag agweddau arbennig ar y ras wedi eu cynnwys yn adran 9 yr adroddiad, ac roedd y trefnwyr yn delio â'r rhain. Roedd Sir Ddinbych wedi parhau â'i chysylltiad rheolaidd â 'Human Race', trefnwyr Etape Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynglŷn â digwyddiad 2012 ac roedd cynlluniau'n awr ar y gweill ar gyfer digwyddiad 2013. Roedd y trefnwyr wedi cyfarfod â'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch ac Aelodau Lleol i adolygu digwyddiad 2012 ac roedden nhw wedi derbyn argymhellion y Grŵp i osgoi unrhyw broblemau yn 2013.

Roedd nifer o'r risgiau a'r pryderon a nodwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi eu crynhoi yn yr adroddiad yn adrannau 9.1 i 9.9, ynghyd â rhai cynlluniau adferol sydd i'w gweithredu i liniaru'r risgiau wrth symud ymlaen. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Cysylltiadau â phreswylwyr a pherchnogion tir sy'n byw ar hyd llwybr y ras.
- Atebolrwydd cyhoeddus.
- Canlyniadau unrhyw asesiadau risg a wnaethpwyd o ran materion atebolrwydd cyhoeddus.
- Stiwardio annigonol.

- Dilysrwydd ffigurau ar fudd economaidd.
- Dechrau’r digwyddiad yn gynharach yn y dydd.
- Ymglymiad Aelodau yn y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch.
- Fforio cyfleoedd i farchnata Sir Ddinbych fel cyrchfan.

Roedd Sir Ddinbych a threfnwyr y digwyddiad wedi trafod trefniadau ar gyfer digwyddiad ychwanegol ym Mhafiliwn Llangollen i gyd-ddigwydd â’r broses gofrestru.  Y Gwasanaethau Hamdden fyddai’n ei drefnu a’i arwain gyda chefnogaeth cynrychiolwyr y gymuned leol, gyda’r nod o sicrhau cefnogaeth leol i’r ras ac i’r potensial o fantais economaidd o’r digwyddiad.

Roedd y trefnwyr wedi gweithio efo swyddogion Priffyrdd ac Adfywio i ddelio â phryderon a fynegwyd gan fusnesau.  Roedd deunydd i hyrwyddo a marchnata Sir Ddinbych fel cyrchfan wedi ymddangos ar wefan Etape Cymru’, ynghyd â gwybodaeth am westai, canolfannau croeso a thai bwyta lleol.  Byddid yn darparu pecynnau gwybodaeth yn y pwynt cofrestru a byddai’r Cyngor yn defnyddio pob cyfle i hyrwyddo’r digwyddiad.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Sir Ddinbych yn hyderus bod y ffigurau a oedd yn ymwneud â mantais economaidd digwyddiad 2012 yn ddilys.

Esboniodd y Cynghorydd D.I. Smith ei fod yn llwyr gefnogi’r digwyddiad ond teimlai y dylai’r trefnwyr ddarparu sicrwydd y gellid cyflenwi’r digwyddiad yn unol ag unrhyw gytundebau ac addewidion a ddarparwyd.  Esboniodd yr Arweinydd y cafwyd problemau’n flaenorol yn y maes yma ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd efo’r trefnwyr i ddelio â’r problemau hyn.  Pwysleisiodd bwysigrwydd ymgysylltu â’r gymuned leol a’r Aelodau Lleol priodol.  Roedd y Cabinet yn cefnogi’r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies bod y cytundeb gan y trefnwyr i ddelio â phryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, fel y’u hamlinellwyd yn 9.1 i 9.9 yr adroddiad, i’w cynnwys yn y penderfyniad.

Dywedodd y Pennaeth Cymunedau, Marchnata a Hamdden wrth y Cabinet fod calendr digwyddiadau wedi ei ddatblygu a byddai hwnnw’n darparu Sir Ddinbych â phroses glir ar gyfer rheoli digwyddiadau a byddai’n atgyfnerthu agwedd uchelgais economaidd y Cyngor.  Yn ateb i gwestiynau gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, cadarnhaodd mai trefnwyr y digwyddiad fyddai’n talu cost unrhyw Orchmynion Cau Ffyrdd, ac esboniodd fod gan Grŵp Ymgynghorol Diogelwch ar y Cyd rôl glir yn awr o ran materion diogelwch.

Cytunai Aelodau â’r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd H.Ll. Jones bod argymhelliad ychwanegol i’w gynnwys yn gofyn i’r trefnwyr ddiweddaru Aelodau Lleol ar y cynnydd o ran y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a’r Grwpiau Cynghorwyr Diogelwch bob tri mis.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD** – bod y Cabinet:-*

*(a) yn nodi’r trefniant i ddelio â’r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, fel y’u hamlinellir yn 9.1 i 9.9 yr adroddiad.*
*(b)  yn cadarnhau’r cau ffyrdd ac yn cefnogi cynnal y digwyddiad;*

(c) *yn gofyn i'r trefnwyr ddiweddaru Aelodau Lleol ar gynnydd o ran y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch bob tri mis.*

## 10 NEWIDIADAU I DREFNIADAU ARIANNU BYSIAU

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y trefniadau rheoli diwygiedig a oedd yn ofynnol i gyflenwi'r cynllun ariannu bysiau newydd drwy TAITH, y Consortiwm Cludiant Rhanbarthol, ac ar gyfer newid i Gyfansoddiad TAITH i ganiatáu cyflenwad y cynllun newydd.

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau ei fwriad i newid y system grantiau a ddefnyddir i gynorthwyo teithio ar fysiau yng Nghymru. Roedd yr amrywiadau'n awr wedi eu terfynu ac roedd yr adroddiad yn nodi'r newidiadau ac yn amlygu eu hoblygiadau.

Roedd Grant y Gweithredwyr Gwasanaethau Bws a ddarperir yn uniongyrchol i weithredwyr bws gan Lywodraeth Cymru, a Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol, a ddarperir i gynorthwyo rhwydweithiau bysiau lleol, yn darparu cymorth ar hyn o bryd i wasanaethau bysiau gan Lywodraeth Cymru. Cyfanswm gwerth cyfunol y grantiau yn 2011/12 oedd £33 miliwn. Yn Ionawr 2012 cyhoeddodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau ostyngiad arfaethedig o 25 i 27% yn y ddau gynllun. Fe fyddai yna gyfnod ariannu trosiannol tra byddai'r grant yn cael ei gynnal, yn amodol ar adolygiad o ariannu gwasanaethau bws yn y dyfodol ledled Cymru. Fe weithredwyd cyfnod cyntaf y gostyngiad o oddeutu 9.5% o Hydref 1af 2012 gyda gostyngiadau lleol yn y llwybrau bws a gynhelir wedi eu cytuno gan y Cabinet ym Medi 2012.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r trefniadau ariannu bysiau diwygiedig ac yn cadarnhau bod yr adroddiad gan y Grŵp Llywio, a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, yn awr wedi ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Roedd egwyddorion allweddol y trefniadau newydd a oeddid i'w sefydlu o Ebrill 1af 2013 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd ag amlinelliad o'r gwaith a oedd yn ofynnol i sicrhau bod y consortia, yr awdurdodau lleol a'r gweithredwyr yn barod i weithredu'r system newydd erbyn Ebrill 1af. Roedd cynlluniau ar gyfer rheoli a darparu adnoddau ar gyfer y cyfrifoldebau newydd yn cael eu datblygu'n lleol gan Grŵp Tasg a Gorffen o Reolwyr Cludiant Gogledd Cymru.

Esboniwyd y byddid yn gweithio i ddeall lefelau presennol y cymorth Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bws ar gyfer gwasanaethau masnachol a gwasanaethau a gynorthwyir, i bennu gwir lefelau'r ariannu ar gyfer elfen milltiredd masnachol y grant newydd a lefelau ariannu sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau a gynhelir. Roedd y Gweinidog wedi cytuno i gyflwyniad y system newydd ddigwydd yn gyfnodol. Byddai rhanbartholiad y Grantiau Gwasanaethau Cludiant Lleol yn mynd yn eu blaen fel a gynlluniwyd ar Ebrill 1af 2013 gyda newidiadau i Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bws i'w cyflwyno dros gyfnod o 12 mis.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Smith fod yna berygl y gallai'r cynigion newydd effeithio ar rwydweithiau bws presennol yn ystod cyfnod y trawsnewid ac fe fyddai yna leihad anochel yn nifer y gwasanaethau masnachol a fyddai'n gweithredu yng

Ngogledd Cymru a hynny'n rhoi pwysau ar y rhwydwaith a gynorthwyir. Byddai lefel yr ariannu heb ei neilltuo a ddyrennir gan Awdurdodau Lleol yn dod dan bwysau wrth i'r newidiadau a'r gostyngiad yn y gyllideb effeithio ar rwydweithiau. Esboniwyd y byddai perthynas weithio glos rhwng TAITH a'r Awdurdodau Lleol yn hanfodol i reoli'r newidiadau potensial.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol wrth Aelodau fod Cyfansoddiad presennol TAITH yn cyfyngu ei swyddogaeth i'r nodau a'r amcanion a fynegir ym mharagraffau 3.1 a 3.2 ei Gyfansoddiad. Cynigiwyd diwygio'r Cyfansoddiad drwy ychwanegu'r amcan ychwanegol isod at baragraff 3.2 y ddogfen. Roedd manylion y diwygiadau arfaethedig wedi eu mynegi'n llawn yn Atodiad 1. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach a byddai unrhyw newidiadau pellach i swyddogaeth TAITH angen cymeradwyaeth bellach yr Awdurdodau partner. Yn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.C. Irving, cadarnhawyd nad oedd unrhyw staff Sir Ddinbych wedi eu secondio i TAITH i ddatblygu'r broses weithredu.

Fe amlygodd nifer o Aelodau'r cyfraniad a wnaethpwyd gan wasanaethau bws lleol i gynnal cymunedau gwledig a datblygu'r economi leol. Cyfeiriwyd at effaith negyddol posib o ganlyniad i dynnu gwasanaethau'n ôl a phwysigrwydd ymgynghori â'r gymuned wrth ystyried darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ffordd y byddai'r penderfyniadau'n cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol, costau a'u heffaith ar wasanaethau eraill, y broses ymgynghori, Datganiad y Prif Swyddog Cyllid a'r risgiau a'r camau i'w lleihau.

***PENDERFYNWYD** – bod y Cabinet:-*

*(a) yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer ariannu bysiau i'w gweithredu o Ebrill 1af 2013 yn dilyn cymeradwyaeth i'r adroddiad ar ariannu bysiau gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau.*
*(b) yn cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad TAITH sydd wedi eu mynegi yn Atodiad 1 i'r adroddiad*
(c) *yn nodi y byddid yn bwrw ymlaen â gwaith pellach i nodi trefniadau rheoli newydd ar gyfer cyflenwi'r cynllun newydd yn ystod gweithrediad cychwynnol a chyfnod trosiannol y Grant Gwasanaethau Cludiant rhanbarthol.*

## 11 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans Flaenraglen Waith y Cabinet.

Cadarnhaodd yr Aelodau'r diwygiadau canlynol i'r Flaenraglen Waith o ran eitemau busnes a oedd wedi eu trefnu ar gyfer y dyfodol:-

- Adroddiad ar Gynllunio mewn Argyfwng i'w gynnwys i'w ystyried yn y cyfarfod ar Fawrth 19eg 2013.

- Yr adroddiad ar Fabwysiad Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol i'w ohirio o'r cyfarfod ar Fawrth 19eg 2013.

- Adroddiad ar y Cynlluniau Tref ac Ardal i'w aildrefnu o Fai 14eg 2013 i Ebrill 16eg 2013.

- Rhifau'r eitemau agenda ar gyfer y cyfarfod ym Mehefin, 2013 i'w diwygio.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Cabinet yn derbyn y Flaenraglen Waith.*

**RHAN II – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Cymeradwyir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 13 1 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**12 CONTRACT PARC AILGYLCHU SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad a oedd yn nodi'r amrywiad i Gontract Parc Ailgylchu'r Cyngor ac estyniad iddo, gyda CAD Recycling.

Yn 2009 fe ddyfarnodd y Cyngor gontract saith mlynedd i CAD Recycling ar gyfer gweithredu Parciau Ailgylchu'r Cyngor, gydag opsiwn i ymestyn y contract o 3 blynedd pellach. Roedd y contract wedi bod yn eithriadol lwyddiannus yn cyflawni gwelliannau enfawr yn y safleoedd a hefyd roedd wedi llwyddo i leihau'n sylweddol swm y gwastraff sy'n mynd i dirlenwi

Roedd y strwythur bonws wedi galluogi'r contractwr i fod yn arloesol yn ei agwedd tuag at ailgylchu, ac roedd y taliadau bonws a oedd yn ddyledus wedi bod yn uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol ar ddechrau'r contract. Er mwyn lleihau costau fe ofynnwyd i'r contractwr ail-drafod y cymalau taliadau bonws ac roedd wedi cytuno i'r newidiadau arfaethedig i'r strwythur bonws, a fyddai'n darparu arbedion o £100,000 y flwyddyn tan ddiwedd y contract ym Mawrth, 2016. Wrth gytuno i'r amrywiad i'r cymalau taliadau bonws roedd y contractwr wedi gofyn am i'r opsiwn o'r estyniad o 3 blynedd ddod i rym. O ystyried perfformiad eithriadol y contractwr hyd yma, ac y byddai'r amrywiad i'r contract yn parhau i symbylu gwelliant parhaus, cymeradwywyd caniatáu'r estyniad o 3 blynedd i'r contract.

Yn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Thompson-Hill, teimlwyd y byddai'r amrywiad yn cyflenwi effeithlonrwydd cost wrth sicrhau y byddai'r contractwr yn dal i gael ei symbylu i wella gwasanaethau i gwsmeriaid y Parc Ailgylchu. Roedd manylion costau, effeithiau ar wasanaethau eraill, ymgynghoriadau a gafwyd, unrhyw risgiau posib a'r dulliau o'u lleihau, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Roedd prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Cyfeiriodd nifer o Aelodau at safon uchel y gwasanaeth a ddarparwyd gan Barciau Ailgylchu'r Cyngor ac effaith positif cynnal trefi glân yn y Sir.

***PENDERFYNWYD****:- bod y Cabinet yn cymeradwyo’r amrywiad i’r cymalau ar strwythur bonws y contract, ac estyniad y contract o gyfnod o 3 blynedd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.